



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Newidiadau i drefniadau llywodraethu gweithredol prif gynghorau

Dyddiad cyhoeddi: 5 Rhagfyr 2019  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 27 Chwefror 2020

<b>Trosolwg</b>	Ymgynghoriad yw hwn i gasglu barn am ddiwygio darpariaethau sy'n rheoli etholiadau meiri.
<b>Sut i ymateb</b>	Dylech ymateb drwy lenwi'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen ymateb hon a'i anfon i:  <a href="mailto:LGDTmailbox@llyw.cymru">LGDTmailbox@llyw.cymru</a>
<b>Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig</b>	<b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b>  Gellir gweld rhagor o fanylion am y Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru:  Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Meiri) (Cymru a Lloegr) 2007 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001
<b>Manylion Cysylltu</b>	I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:  <a href="mailto:LGDTmailbox@llyw.cymru">LGDTmailbox@llyw.cymru</a>  Yr is-adran Democratiaeth Llywodraeth Lleol Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD, CF10 3NQ

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

**Cynnwys**

**Cyflwyniad - Tudalen 5**

**Cefndir - Tudalen 5**

**Cwestiynau a Ffurflen Ymateb - Tudalennau 8-11**

## Cyflwyniad

### ***Trefniadau llywodraethu gweithredol prif gynghorau***

Ar hyn o bryd, mae trefniadau llywodraethu gweithredol pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru wedi'u seilio ar fodel 'arweinydd a chabinet'. Yn dilyn etholiad prif gyngor, bydd y prif gyngor yn penodi arweinydd, a bydd yr arweinydd wedyn fel arfer yn penodi cabinet o aelodau o'r prif gyngor.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gellir newid trefniadau llywodraethu gweithredol prif gynghorau i fodel lle mae maer etholedig yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau gweithredol. Byddai gan faer etholedig yr hawl i benodi cabinet newydd a gallai ddewis cabinet gwahanol yn lle'r un oedd yn gweithredu cyn iddo gael ei ethol.

Gellir newid trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor yn y ffordd canlynol:

1. Mae Rhan 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn galluogi prif gyngor i lunio cynigion i amrywio'i drefniadau llywodraethu gweithredol neu osod trefniadau yn lle'r rhai presennol ac i'w cymeradwyo drwy gyfrwng penderfyniad;
2. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001, a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, yn galluogi etholwyr yn ardal prif gyngor i ddeisebu o blaid newid yn nhrefniadau llywodraethu gweithredol eu prif gyngor;
3. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo prif gyngor i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai weithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys maer etholedig a chabinet; ac
4. Mae Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn yn mynnu bod pob prif gyngor neu bob prif gyngor sy'n dod oddi mewn i unrhyw ddisgrifiad o awdurdod a bennwyd yn y gorchymyn yn cynnal refferendwm ynghylch a ddylai weithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys maer etholedig a chabinet.

Rhaid cael cymeradwyaeth mewn refferendwm i bob un o'r pedwar dull os yw un ai'r weithrediaeth bresennol neu ffurf arfaethedig y weithrediaeth yn weithrediaeth maer a chabinet.

### ***Beth ydym ni'n ei gynnig?***

Rydym yn cynnig y dylai fod modd i ddeisebau gael eu cyflwyno, i gynigion ar gyfer penderfyniadau gael eu llunio gan brif gynghorau ac i gyfarwyddiadau a gorchymynion gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o'r diwrnod ar ôl etholiad cyffredin. Rydym yn cynnig y dylai'r dyddiad terfyn fod yn ddeunaw mis cyn dyddiad y set nesaf o etholiadau cyffredin.

Yn dilyn deiseb, penderfyniad, cyfarwyddyd neu orchymyn llwyddiannus, y bwriad yw y byddai digon o amser i gynnal refferendwm a galluogi unrhyw etholiad am faer i gael ei gynnal ar yr un pryd â'r set nesaf o etholiadau cyffredin.

Rydym hefyd eisiau cyflwyno darpariaeth sy'n sicrhau, pan fydd trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor wedi cael eu newid, y bydd yn rhaid defnyddio'r trefniant hwnnw am y ddau gylch etholiadol nesaf o leiaf.

### ***Pam ydym ni eisiau gwneud newidiadau?***

Ar hyn o bryd, gall prif gyngor lunio cynigion am benderfyniad yn cynnig refferendwm i newid ei drefniadau llywodraethu gweithredol ar **unrhyw adeg** yn ystod y cylch etholiadol (yn amodol ar y cyfyngiad na chaiff y cyngor, ar ôl pasio penderfyniad, ystyried y mater eto yn yr un cylch etholiadol). Gall Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo neu orchymyn prif gynghorau i gynnal refferendwm ar unrhyw adeg yn ystod y cylch etholiadol.

Mae deisebau i newid y trefniadau llywodraethu gweithredol mewn prif gynghorau yn ddarostyngedig i amserlen gaeth a rhaid iddynt gychwyn yn ystod ffenestr benodol sy'n agor ar adeg benodedig un flwyddyn cyn yr etholiadau cyffredin disgwylidig nesaf ac yn aros ar agor am chwe mis.

Yn dilyn penderfyniad llwyddiannus, rhaid cynnal refferendwm o fewn y cyfnod sy'n dechrau ddau fis ar ôl, ac yn gorffen chwe mis ar ôl y dyddiad pan fydd y prif gyngor yn anfon copi o'r cynigion at Weinidogion Cymru. Os mai canlyniad y refferendwm yw cymeradwyo newid y trefniadau, rhaid i'r newid ddigwydd o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y caiff y refferendwm ei gynnal.

Yn dilyn deiseb llwyddiannus, rhaid cynnal refferendwm o fewn chwe mis i'r dyddiad y caiff y ddeiseb ei chyflwyno i'r prif gyngor, ac os bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo prif gyngor i gynnal refferendwm, rhaid i'r refferendwm gael ei gynnal chwe mis o'r dyddiad y gwneir y cyfarwyddyd.

Mae'n dra thebygol na fyddai etholiad am faer etholedig yn digwydd ar yr un dyddiad ag etholiad cyffredin, gan arwain o bosibl at benodi arweinydd a chabinet, a'u bod hwythau wedyn yn cael eu disodli gan faer etholedig a chabinet newydd ychydig yn ddiweddarach.

Byddai hyn yn tarfu ar y drefn wleidyddol ac yn gostus.

Nid ein bwriad ni yw rhwystro unrhyw gynigion i newid trefniadau llywodraethu gweithredol a allai fod wedi'u trefnu ar gyfer y set nesaf o etholiadau cyffredin, felly ni fydd y polisiâu sy'n cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn yn dechrau tan ar ôl etholiadau cyffredin 2022.

**Cyflwyno dyddiad terfyn ddeunaw mis cyn y set nesaf o etholiadau cyffredin i ddeisebau, penderfyniadau, gorchmynion a rheoliadau i newid trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor.**

Rydym yn cynnig bod y ffenestr bresennol i ddeiseb ar gyfer newid trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor yn cael ei newid am ddyddiad terfyn ddeunaw mis cyn y set nesaf o etholiadau cyffredin. Byddai hyn yn golygu y gallai deiseb gael ei chyflwyno rhwng y diwrnod ar ôl etholiadau cyffredin hyd at ddeunaw mis cyn y set nesaf o etholiadau cyffredin.

Byddai dyddiad terfyn cyfatebol o ddeunaw mis yn berthnasol hefyd i benderfyniadau i newid trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor a hefyd i orchmynion a chyfarwyddiadau i'r un pwrpas a wneir gan Weinidogion Cymru.

Câi unrhyw refferendwm ei gynnal o fewn blwyddyn i'r dyddiad terfyn a byddai cyfnod clir o chwe mis yn cael ei ganiatáu wedyn cyn y set nesaf o etholiadau cyffredin.

Byddai hyn yn caniatáu digon o amser i sicrhau, pe ceid deiseb, penderfyniad, gorchymyn neu reoliadau ar gyfer refferendwm i newid trefniadau llywodraethu gweithredol, y byddai unrhyw etholiadau am faer yn sgil hynny yn cael eu cynnal yr un pryd â'r set nesaf o etholiadau cyffredin.

**Cyflwyno darpariaeth sy'n sicrhau, pan fydd trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor wedi cael eu newid, y bydd yn rhaid defnyddio'r trefniant hwnnw am y ddau gylch etholiadol nesaf o leiaf.**

Mae nifer y refferenda y gall prif gyngor eu cynnal yn cael ei gyfyngu gan adran 45(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i un mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd. Hefyd, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfyngu ar sawl gwaith y gall prif gyngor wneud penderfyniad i newid ei drefniadau etholiadol i unwaith mewn tymor etholiadol. Fodd bynnag, mae i'r sefyllfa bresennol botensial o hyd i greu cryn ansefydlogrwydd gwleidyddol gyda'r hyn a allai olygu newid yn nhrefniadau'r weithrediaeth yn ystod pob cylch etholiadol.

Er mwyn lleihau'r risg o ansefydlogrwydd gwleidyddol, rydym yn cynnig, lle mae trefniadau gweithrediaeth prif gyngor wedi newid, na ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach iddynt nes bydd dau gylch etholiadol llawn wedi pasio.

### **Deisebau electronig a chyhoeddi**

Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth gael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol dderbyn deisebau electronig am gynnal refferendwm i newid trefniadau gweithrediaeth.

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008 yn pennu bod rhaid i hysbysiad cyhoeddus am refferendwm sydd i gael ei gynnal gael ei gyhoeddi mewn papur newydd. Er mwyn i hyn fod yn gyson â dulliau mwy cyfoes o gyhoeddi gwybodaeth, rydym yn cynnig y dylai hysbysiad am refferendwm gael ei gyhoeddi ar wefan prif gyngor, yn ogystal â'i gyhoeddi mewn papur newydd. Bydd hyn yn help i sicrhau bod refferenda lleol yn fwy hygyrch i ystod ehangach o etholwyr a bod y drefn yn fwy agored a thryloyw.

## Nifer yr etholwyr sy'n ofynnol i sbarduno refferendwm

Yn Lloegr, 5% o etholwyr cofrestredig prif gynghorau sy'n gorfod llofnodi deiseb i sbarduno refferendwm am newid i'r trefniadau llywodraethu gweithredol. Yng Nghymru, rhaid cael 10% o etholwyr cofrestredig er mwyn sbarduno refferendwm.

Rydym yn achub ar y cyfle hwn i gasglu barn pobl ynghylch a ddylid newid y gofyniad o 10%.

### Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu eich barn am y cynigion uchod.

#### 1. Cyfyngu'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cynigion i newid trefniadau llywodraethu gweithredol

- a. Ydych chi'n cytuno y dylai deisebau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a gorchmynion am newid trefniadau llywodraethu gweithredol i gyd fod yn ddarostyngedig i derfyn amser?

Ydw

Nac ydw

- b. Os ydych chi, ydych chi'n cytuno y dylai'r terfyn amser gael ei osod ar ddeunaw mis cyn y set nesaf o etholiadau lleol, gan alluogi unrhyw refferendwm i gael ei gynnal cyn yr etholiadau cyffredin nesaf?

Ydw

Nac ydw

- c. Os ydych chi wedi ateb 'nac ydw' i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, pam hynny? Rhowch fanylion



## 2. Newid trefniadau llywodraethu

- a. Ydych chi'n cytuno, lle mae trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor wedi cael eu newid, fod rhaid i'r prif gyngor gadw at y trefniadau hynny am ddau gylch etholiadol llawn?

Ydw

Nac ydw

- b. Os nad ydych chi, pam ddim? Rhwch fanylion

## 3. Deisebau electronig

- a. Ydych chi'n cytuno y dylai deddfwriaeth gael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau dderbyn deisebau mewn ffurf electronig?

Ydw

Nac ydw

- b. Ydych chi hefyd yn cytuno y dylai'r hysbysiad am refferendwm gael ei gyhoeddi ar wefan prif gyngor, yn ogystal â'i gyhoeddi mewn papur newydd?

Ydw

Nac ydw

- c. Ydych chi'n fodlon â'r darpariaethau dwyieithog presennol ar gyfer deisebau?

Ydw

Nac ydw

- d. Os nad ydych chi, pam ddim? Rhwch fanylion

#### 4. Nifer yr etholwyr sy'n ofynnol i sbarduno refferendwm

Yn Lloegr, 5% o etholwyr cofrestredig prif gynghorau sy'n gorfod llofnodi deiseb i sbarduno refferendwm am newid i'r trefniadau llywodraethu gweithredol. Yng Nghymru, rhaid cael 10% o etholwyr cofrestredig er mwyn sbarduno refferendwm.

a. Ydych chi'n credu bod angen newid y trothwy ar gyfer sbarduno refferendwm?

Ydw

Nac ydw

b. Os hoffech chi fynegi unrhyw farn am hyn, rhowch fanylion:

5. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n galluogi prif gynghorau i newid trefniadau llywodraethu gweithredol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

6. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n galluogi prif gynghorau i newid trefniadau llywodraethu gweithredol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: [cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

### **Dychwelyd y ffurflen hon**

Y dyddiad cau i atebion yw **27 Chwefror 2020**

Anfonwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau drwy e-bost i

[LGDTmailbox@llyw.cymru](mailto:LGDTmailbox@llyw.cymru)

Os ydych chi'n anfon eich ymateb drwy e-bost, nodwch fel pwnc eich e-bost: **Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n galluogi prif gynghorau i newid trefniadau llywodraethu gweithredol**

### **Cyhoeddi ymatebion**

*Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu gwneud yn gyhoeddus - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur eu cyhoeddi ynghyd â'r ymateb, gan fod hyn yn help i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol.*

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: